



CYNLLUN MARCIO TGAU

HAF 2023

**TGAU
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL
PLANT – UNED 3
3570ND0-1**

CYFLWYNIAD

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr a oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o atebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghynhadledd yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion ynglŷn â manylion neu ddehongliad.

Ni all CBAC fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na gohebiaeth yn ymwneud â'r cynllun marcio hwn.

CBAC TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT – UNED 3

CYNLLUN MARCIO HAF 2023

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
1.	<p>Ticiwch (✓) y blwch i ddangos ydy pob gosodiad yn gywir neu'n anghywir.</p> <p>Rhowch 1 marc am bob ateb cywir.</p> <p>(i) Anghywir (ii) Cywir (iii) Cywir</p>	1,1,1			3
2.	<p><i>Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio amrywiaeth o fentrau er mwyn rhoi cyngor ar ffordd o fyw a gwybodaeth am ymyriadau a gwasanaethau iechyd y cyhoedd.</i></p> <p><i>Amlinellwch sut mae menter Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig yn cefnogi iechyd a llesiant pobl ifanc yng Nghymru.</i></p> <p>Rhowch hyd ar 4 marc am amlinelliad o sut mae menter Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig yn cefnogi iechyd a llesiant pobl ifanc yng Nghymru.</p> <p>Gall atebion gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gellir ei hybu gan ysgolion a chlybiau • gweledigaeth o wneud chwaraeon yn hwyl a chreu 'mwynhad gydol oes o chwaraeon' i bob plentyn • cynyddu ffitrwydd • gweledigaeth o gael mwy o bobl ifanc 'yn fwy gweithgar yn amlach' • cynyddu lefelau ffitrwydd • drwy ganolbwyntio ar ddysgu plentyn-ganolog • drwy helpu pobl ifanc i deimlo'n hyderus ac yn gymwys i chwarae a mwynhau amrywiaeth eang o chwaraeon • drwy ddysgu sgiliau corfforol allweddol gan gynnwys y sgiliau holl bwysig – ystwythder, cydbwysedd a chydymud • gadael i'r bobl ifanc ddatblygu ar eu cyflymder eu hunain • sesiynau wedi'u teilwra i fodloni anghenion y person ifanc i gefnogi eu datblygiad corfforol yn llawn 	4			4

Band	AA1
4	4 marc Amlinelliad rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae menter Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig yn cefnogi iechyd a llesiant pobl ifanc yng Nghymru.
3	3 marc Amlinelliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae menter Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig yn cefnogi iechyd a llesiant pobl ifanc yng Nghymru.
2	2 marc Amlinelliad da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae menter Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig yn cefnogi iechyd a llesiant pobl ifanc yng Nghymru.
1	1 marc Amlinelliad sylfaenol sy'n dangos ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae menter Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig yn cefnogi iechyd a llesiant pobl ifanc yng Nghymru.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
3.	<p><i>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl sydd ag un neu fwy o'r naw o nodweddion gwarchoddedig penodol (specific protected characteristics) yn erbyn gwahaniaethu.</i></p> <p><i>Enwch dair o'r nodweddion gwarchoddedig hyn.</i></p> <p>Unrhyw dair o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Oedran • Anabledd • Priodas a Phartneriaeth Sifil • Beichiogrwydd a mamolaeth • Hil, Crefydd neu Gred • Rhyw, Ailbennu rhywedd, Cyfeiriadedd rhywiol. 	3 [1,1,1]			3

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
4.	<p>(a) <i>Mae unigolion yn gallu wynebu anghydraddoldebau iechyd (health inequalities) a rhwystrau rhag gwasanaethau gofal iechyd.</i></p> <p><i>Esboniwch pam byddai unigolion sydd ag anableddau dysgu yn gallu wynebu anghydraddoldebau iechyd a rhwystrau rhag gwasanaethau gofal iechyd.</i></p> <p>Rhowch hyd at 5 marc am esboniad manwl o pam y gall unigolion ag anableddau dysgu brofi anghydraddoldebau iechyd a rhwystrau rhag gwasanaethau gofal iechyd, megis:</p> <p>Rhwystrau Cyffredinol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diffyg hyfforddiant i staff. Staff dibrofiad ac anghymwys. • Diffyg dealltwriaeth staff o anghenion pobl ag anableddau dysgu. • Diffyg empathi gan staff ac felly gofal annigonol yn cael ei roi. Efallai y bydd nodweddion fel amynedd a chefnogaeth ar goll. • Diffyg polisiau a gweithdrefnau, heb unrhyw fentora i helpu staff a rhoi cyngor iddynt. • Staff ddim yn ymwybodol o ymarfer da ar gyfer gofalu am y rhai ag anableddau dysgu. • Mae staff yn gweld eu hunain mewn safle o rym neu reolaeth a gallent fanteisio ar y sefyllfa. • Staffio annigonol sy'n arwain at staff sydd wedi'u gorweithio. Staff yn gweithio gormod o oriau. Gall staff ddioddef o straen, bod wedi'u gorweithio, bod yn flinedig; gan achosi diffyg amynedd ac ni fydd anghenion y rhai ag anableddau dysgu yn cael eu bodloni. • Dim cefnogaeth gan uwch aelodau staff / rheolwyr ar adegau prysur. • Hunan-barch isel ymysg staff. Mae'r staff yn teimlo'n annigonol ac yn methu â rhoi gofal o safon uchel. <p>Rhwystrau'r unigolyn –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhwystrau cyfathrebu. • Diffyg mynediad at wasanaethau. • Materion trafndiaeth. 		5		5

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
		<ul style="list-style-type: none"> • Rhwystrau rhag cael mynediad at wybodaeth. • Rhwystrau seicolegol e.e., ofn. • Rhwystrau daearyddol e.e., y pellter i deithio i wasanaethau, loteri cod post. <p>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall.</p>				

Band	AA2
3	<p style="text-align: center;">5 marc</p> <p>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut y byddai unigolion sydd ag anableddau dysgu yn gallu wynebu anghydraddoldebau iechyd a rhwystrau rhag gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r ymateb yn esbonio'n drylwyr ac yn cynnwys enghreifftiau perthnasol sy'n dangos y pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn glir.</p>
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <p>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y byddai unigolion sydd ag anableddau dysgu yn gallu wynebu anghydraddoldebau iechyd a rhwystrau rhag gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r ymateb yn esbonio'n glir ac yn cynnwys enghreifftiau perthnasol i ddangos y pwyntiau sy'n cael eu gwneud.</p>
1	<p style="text-align: center;">1-2 marc</p> <p>Esboniad sylfaenol sy'n dangos ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth o sut y byddai unigolion sydd ag anableddau dysgu yn gallu wynebu anghydraddoldebau iechyd a rhwystrau rhag gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r ymateb yn esbonio gyda rhywfaint o gyfeirio at enghreifftiau i ddangos y pwyntiau sy'n cael eu gwneud.</p>
	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb</p>

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
(b)	<p><i>Dadansoddwch pa mor bwysig yw diogelu (safeguarding) i oedolion agored i niwed (vulnerable) sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain.</i></p> <p>Rhowch hyd at 6 marc am ddadansoddiad manwl o ba mor bwysig yw diogelu i oedolion agored i niwed sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Er mwyn eu galluogi i ofalu amdanynt eu hunain heb gymorth er mwyn osgoi teimlo'u bod wedi'u dadrymuso/yn ddiwerth/wedi encilio • Er mwyn osgoi iddynt deimlo'n ynysig yn gymdeithasol — byddai hyn yn ei dro yn lleihau teimladau o hunan-barch isel/bod yn llai hyderus/ bod yn llai ofnus / ddim yn poeni • I gefnogi pan nad oes perthnasau gerllaw er mwyn osgoi ynysigrwydd/iselder/tristwch. • Er mwyn osgoi afiechyd meddwl neu gefnogi anghenion iechyd meddwl • Er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn bwyta'n iawn – peidio ag esgeuluso eu hunain a allai arwain at ddirywiad yn eu hiechyd corfforol. • Osgoi afiechyd corfforol – osgoi problemau gyda symudedd/anafiadau corfforol oherwydd cwmpiadau • Sicrhau bod ganddynt rywun i siarad â nhw os nad oes ganddynt ffrindiau a lleihau teimladau o fod wedi encilio neu beidio â gallu cyfathrebu. <p>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall.</p>			6	6

Band	AA3
3	<p>5-6 marc</p> <p>Dadansoddiad rhagorol yn cynnwys llunio barn wedi'i rhesymu ynglyn â pha mor bwysig yw diogelu i oedolion agored i niwed sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r ymateb yn nodi'n glir amrywiaeth o effeithiau diogelu i oedolion agored i niwed sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain</p>
2	<p>3-4 marc</p> <p>Dadansoddiad da yn cynnwys rhywfaint o lunio barn ynglŷn â pha mor bwysig yw diogelu i oedolion agored i niwed sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r ymateb yn nodi'n glir o leiaf dwy effaith o ddiogelu i oedolion agored i niwed sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain</p>

1	1-2 marc Dadansoddiad sylfaenol ynglŷn â pha mor bwysig yw diogelu i oedolion agored i niwed sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r ymateb yn nodi o leiaf un effaith o ddiogelu i oedolion agored i niwed sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
(c)	<i>Heblaw am unigolion sydd ag anableddau dysgu ac oedolion allai fod yn agored i niwed, nodwch ddau grŵp arall gallai fod angen eu diogelu.</i>				2
(i)	Rhowch 1 marc am bob grŵp gwahanol o bobl agored i niwed gallai fod angen eu diogelu. Dylai'r atebion fod o'r rhestr isod:	1			
(ii)		1			
	<ul style="list-style-type: none"> • Plant. • Plant mewn gofal. • Pobl hŷn/oedrannus. • Dioddefwyr cam-drin. • Unigolion ag anableddau corfforol neu synhwyrdd. • Pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. • Pobl mewn lleoliadau gofal. 				
(ch)	<p><i>Enwch ddau ddeddfwriaeth/polisi presennol ar gyfer diogelu unigolion.</i></p> <p>Rhowch un marc am bob polisi neu ddeddfwriaeth sy'n cael eu nodi yn gywir ar gyfer darpariaeth diogelu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 • Deddf Hawliau Dynol 1998 • Deddf Plant 1989 – mewn perthynas â lles y plentyn • Deddf Plant 2004 • Cymru, gweithdrefnau diogelwch ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed 2020 • Deddf Cydraddoldeb 2010 • Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 • Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 • Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 • Deddf Iechyd Meddwl 1989 • Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer oedolion mewn perygl. 	1 1			2

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
(d)	<p><i>Disgrifiwch beth yw pwrpasau allweddol (key purposes) deddfwriaeth a pholisïau diogelu.</i></p> <p>Rhowch hyd at 4 marc am ddisgrifiad manwl o bwrpasau allweddol deddfwriaeth a pholisïau diogelu, a all gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hybu a chynnal diogelwch unigolion a gweithwyr gofal. • Datblygu a chynnal llinellau cyfathrebu effeithiol. • Cynnal cyfrinachedd gwybodaeth. • Sicrhau bod gweithdrefnau fetio priodol yn cael eu dilyn wrth recriwtio gweithwyr newydd. <p>Rhowch farciau am unrhyw ymateb rhesymol arall.</p>	4			4

Band	AA1
4	<p>4 marc</p> <p>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddeddfwriaeth a pholisïau diogelu.</p>
3	<p>3 marc</p> <p>Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a'r polisïau diogelu a enwir.</p>
2	<p>2 marc</p> <p>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a'r polisïau diogelu a enwir.</p>
1	<p>1 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n dangos ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a'r polisïau diogelu a enwir.</p>
	<p>0 marc</p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb</p>

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
5.	<p><i>Mae gan staff o fewn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant ddyletswydd i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth (diversity) a chynhwysiant ym mhob rhan o'u gwaith.</i></p> <p>(a)</p> <p><i>Disgrifiwch beth yw ystyr pob un o'r termau canlynol:</i> <i>Cydraddoldeb</i> <i>Amrywiaeth</i> <i>Cynhwysiant</i></p> <p>Rhowch 2 farc am ddisgrifiad clir o'r termau:</p> <p>(i) Mae cydraddoldeb yn cyfeirio at y ffaith bod unigolion yn gyfartal yn nhermau statws, hawliau, neu gyfleoedd. Mae'n ymwneud â sicrhau nad yw unigolion neu grwpiau o unigolion yn cael eu trin yn wahanol neu'n llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig benodol.</p> <p>(ii) Mae amrywiaeth yn ymwneud â derbyn, parchu a deall bod pob unigolyn yn unigryw, gan gydnabod gwahaniaethau unigol a dathlu'r cyfoeth o ddimensiynau amrywiol sydd gan unigolion.</p> <p>(iii) Ystyrir bod cynhwysiant yn hawl ddynol gyffredinol. Nod cynhwysiant yw croesawu pob unigolyn ni waeth beth yw ei hil, rhywedd, anabledd, anghenion meddygol neu anghenion eraill er mwyn rhoi mynediad a chyfleoedd cyfartal; cael gwared ar wahaniaethu ac anoddefgarwch ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae cynhwysiant yn galluogi unigolion i gymryd rhan yn gyfartal, yn hyderus ac yn annibynnol mewn gweithgareddau pob dydd. Mae'n golygu creu cyfleusterau y gall pawb eu defnyddio.</p> <p>Derbyniwch unrhyw ddisgrifiad rhesymol arall o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.</p>				
		2			6
		2			
		2			

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
	<p>(b) <i>Esboniwch sut mae modd cyflawni cydraddoldeb, amrywiaetha chynhwysiant mewn lleoliadau gofal plant.</i></p> <p>Rhowch hyd at 6 marc am esboniad manwl ar sut y gellir cyflawni cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn lleoliadau gofal plant.</p> <p>Dylai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trin unigolion yn deg <ul style="list-style-type: none"> - Gwneud i blant deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i deimlo'n dda amdanynt eu hunain ac eraill - Creu amgylchedd o barch a goddefgarwch • Creu diwylliant cynhwysol i bob aelod o staff ac unigolion <ul style="list-style-type: none"> - Cynnig cyfarfodydd a chefnogaeth i rieni/gofalwyr a'u plant lle mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol. - Trin pob plentyn fel unigolyn a pharchu eu crefyddau a'u diwylliannau. - Helpu plant i ddeall bod ymddygiad a sylwadau gwahaniaethol yn niweidiol ac yn annerbyniol. - Helpu plant i ddysgu am amrywiaeth o fwydydd, a dulliau diwylliannol o drin prydau bwyd a bwyta, ac i barchu'r gwahaniaethau rhyngddynt. • Sicrhau nad yw polisïau, gweithdrefnau na phrosesau'n gwahaniaethu <ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod y strategaethau'n bodloni nodau cyffredinol y lleoliadau i hybu cydraddoldeb, cynhwysiant a gwerthfawrogi amrywiaeth. • Sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i unigolion gymryd rhan yn llawn yn eu gofal a/neu'r broses ddysgu <ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau bod yr holl weithgareddau a theganau yn cael eu cynnig i bob plentyn beth bynnag fo'u rhywedd a'u hanghenion datblygiadol. - Anogir pob plentyn i ymuno ym mhob gweithgaredd h.y. gwisgo i fyny, cornel chwarae rôl, dringo ar gyfarpar mawr, beiciau ac ati. - Gwneud addasiadau i'r amgylchedd ac adnoddau i ddarparu ar gyfer 		6		6

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
	<p>amrywiaeth eang o namau dysgu, corfforol a synhwyrol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gwneud darpariaeth briodol o fewn y cwricwlwm i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle ehangaf posibl i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd, e.e., Adnabod yr arddulliau dysgu gwahanol sydd gan ferched a bechgyn. • Galluogi pob aelod o staff ac unigolion i ddatblygu i'w potensial llawn <ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau bod plant sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac yn cael eu cefnogi yn eu dysgu. • Rhoi sgiliau i staff ac unigolion allu herio anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn eu hamgylchedd gwaith/astudio • Sicrhau na fydd unrhyw ddeunyddiau nac adnoddau yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion na grwpiau <ul style="list-style-type: none"> - Darparu straeon sy'n adlewyrchu amrywiaeth o gartrefi. - Darparu adnoddau sy'n adlewyrchu cefndir pob plentyn. - Gwirio bod adnoddau'n adlewyrchu amrywiaeth ac nad ydynt yn hybu stereoteipiau negyddol e.e., sicrhau bod croen, nodweddion wyneb a gwead gwallt cywir a realistig ar ddoliau a - Dathlu holl wyliau'r feithrinfa, gan sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cynnwys sy'n berthnasol i blant sy'n mynychu'r lleoliad. - Darparu caneuon, rhigymau ac offerynnau cerdd o amrywiaeth eang o ddiwylliannau. - Sicrhau bod gwybodaeth am gyfarfodydd yn cael ei chyfleu mewn amrywiaeth o ffyrdd - yn ysgrifenedig, ar lafar ac mewn cyfieithiad - er mwyn sicrhau bod gan bob rhiant/gofalwr wybodaeth am y cyfarfodydd ac yn gallu cael mynediad iddynt. • Sicrhau bod anghenion mynediad unigolion yn cael eu bodloni <ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau y trefnir gweithgareddau ar gyfer pob plentyn unigol, gan ddilyn eu diddordebau a'u galluoedd eu hunain. - Edrych ar nodweddion pob plentyn o ddysgu effeithiol, sut maen nhw'n 				

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
	<p>dysgu, boed yn ddysgwyr gweithredol neu'n feddylwyr beirniadol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cyflwyno gwahanol fwydydd traddodiadol yn ystod amser byrbryd ac wrth goginio. - Gweithio mewn partneriaeth â rhieni i sicrhau bod gofynion deiet plant sy'n deillio o'u hanghenion meddygol, crefyddol neu ddiwylliannol yn cael eu bodloni. <ul style="list-style-type: none"> • Chwalu rhwystrau sy'n creu gwahaniad <ul style="list-style-type: none"> - Darparu amgylchedd cyfoethog o ran iaith sy'n adlewyrchu'r holl ieithoedd a ddefnyddir yn y lleoliad, hyd yn oed lle mai Cymraeg a Saesneg yw'r unig ieithoedd a ddefnyddir. - Annog modelau rôl cadarnhaol sy'n cael eu harddangos trwy deganau, chwarae dychmygol, llyfrau a phosteri sy'n hybudelweddau nad ydynt yn ystrydebol. - Bod ag arddangosfeydd wal sy'n dangos pobl o gefndiroedd amrywiol yn gwneud tasgau pob dydd. - Gwahodd ymwelwyr o wahanol rannau o'r gymuned i'r lleoliad. <p>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall.</p>				

Band	AA2
	5-6 marc
3	Esboniad rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae modd cyflawni cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn lleoliadau gofal plant.
	3-4 marc
2	Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae modd cyflawni cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn lleoliadau gofal plant.
	1-2 marc
1	Esboniad sylfaenol sy'n dangos ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae modd cyflawni cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn lleoliadau gofal plant.
	0 marc
	Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
(c)	<p><i>Aseswch sut mae codau ymarfer sydd wedi'u cynhyrchu gan gyrff rheoleiddio (regulatory bodies) yn ceisio hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.</i></p> <p>Gall atebion gynnwys y canlynol: Mae'r codau ymarfer yn nodi'r safonau ymarfer a'r ymddygiad a ddisgwylir gan weithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, a'u cyflogwyr.</p> <p>Nod y codau ymarfer yw'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lleihau anghydraddoldebau rhwng cleifion mewn perthynas â'u gallu i gael mynediad at wasanaethau iechyd a chanlyniadau a gyflawnir iddynt drwy ddarparu gwasanaethau iechyd • sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau i bob unigolyn. • bod yn glir ac anelu at feithrin diwylliant o gynhwysiant. • helpu sefydliadau i roi'r strwythurau a'r gweithdrefnau cywir ar waith. • helpu i ddsbarthu'r ansawdd gofal y gall unigolion ei ddisgwyl os ydynt yn derbyn gwasanaethau gofal. • bod yn ddefnyddiol ar gyfer mesur ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. <p>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall.</p>			6	6

Band	AA3
3	<p>5-6 marc</p> <p>Asesiad da iawn sy'n dangos dealltwriaeth a gwybodaeth fanwl o sut mae codau ymarfer sydd wedi'u cynhyrchu gan gyrff rheoleiddio yn ceisio hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.</p>
2	<p>3-4 marc</p> <p>Asesiad da iawn dangos dealltwriaeth a gwybodaeth o sut mae codau ymarfer sydd wedi'u cynhyrchu gan gyrff rheoleiddio yn ceisio hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.</p>
1	<p>1-2 marc</p> <p>Asesiad sylfaenol sy'n dangos ychydig o ddealltwriaeth a gwybodaeth o sut mae codau ymarfer sydd wedi'u cynhyrchu gan gyrff rheoleiddio yn ceisio hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.</p>

	<p style="text-align: center;">0 marc</p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb</p>
--	---

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
6. (a)	<p><i>Mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn bwysig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant. Disgrifiwch beth yw prif bwrpas y fframwaith strategol Mwy na geiriau.</i></p> <p>Rhowch hyd at 2 farc am ddisgrifiad cywir o brif bwrpas y fframwaith strategol Mwy na geiriau.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y nod yw adeiladu ar y strategaeth wreiddiol i gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. • Mae hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu mamiaith, fel eu bod yn cael eu grymuso i chwarae rhan weithredol yn eu gofal. <p>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall.</p>	2			2
(b)	<p><i>Ystyriwch beth yw manteision Y Cynnig Rhagweithiol (The Active Offer) i unigolion sy'n dewis derbyn eu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.</i></p> <p>Rhowch hyd at 3 marc am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod y Gymraeg mor weladwy â'r Saesneg i unigolion wrth dderbyn gofal. • Mae'n tynnu'r cyfrifoldeb oddi ar yr unigolion i orfod gofyn yn benodol am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg wrth dderbyn gofal. • Mae'n gwneud i unigolion deimlo'n fwy cyfforddus yn trafod materion personol ac emosiynol yn eu hiaith gyntaf. • Mae'n sicrhau gwasanaeth o ansawdd sy'n bodloni anghenion cleifion. • Mae'r dewis o iaith wrth wraidd asesiad clinigol effeithiol a thriniaeth ddiogel. • Mae'n cydnabod bod cyfathrebu effeithiol yn allweddol i fodloni anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg. • Mae gwneud 'Cynnig Rhagweithiol' yn arbennig o bwysig i bobl agored i niwed fel plant a phobl ifanc, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, pobl ag anabledau dysgu, pobl hŷn a phobl ag anawsterau llefaru ac iaith. 			3	3

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
		<ul style="list-style-type: none"> Mae gwneud 'Cynnig Rhagweithiol' yn ymddygiad sy'n adlewyrchu gwerthoedd craidd y GIG i drin pob claf fel unigolion a gydag urddas a pharch 				

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
		<ul style="list-style-type: none"> Mae'n cefnogi nodau Comisiynydd y Gymraeg i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. <p>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall.</p>				

Band	AA3
3	<p>3 marc</p> <p>Ystyriaeth dda iawn sy'n dangos manteision Y Cynnig Rhagweithiol i unigolion sy'n dewis derbyn eu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
2	<p>2 marc</p> <p>Ystyriaeth dda sy'n dangos manteision Y Cynnig Rhagweithiol i unigolion sy'n dewis derbyn eu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
1	<p>1 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n dangos ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth o, o leiaf un fantais o'r Cynnig Rhagweithiol i unigolion sy'n dewis derbyn eu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
0	<p>0 marc</p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb</p>

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
7	<p>(a) (i) <i>Nodwch y canran o blant 14 oed gafodd eu bwlio yn 2018.</i></p> <p>Rhowch 1 marc am unrhyw ateb rhwng 12% a 15%.</p> <p>(ii) <i>Disgrifiwch y patrwm/tuedd gyffredinol mewn bwlio ar gyfer plant 8–18 oed ers 2017.</i></p> <p>Rhowch 1 marc am ateb cywir a all gynnwys: Mae'r patrwm/tueddiad wedi dangos gostyngiad;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae llai o fwlio wedi bod ers 2017; • Mae'r patrymau ar gyfer yr ystod oedran 8-18 wedi gostwng ers 2017. <p>(iii) <i>Awgrymwch esboniad posibl o'r patrwm bwlio ers 2017.</i></p> <p>Rhowch hyd at 2 farc am awgrym cywir a all gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mwy o wylriadwriaeth o ran bwlio mewn ysgolion a cholegau; • Ymdrinnir â digwyddiadau sy'n gysylltiedig â bwlio yn gynt ac nid ydynt yn gwaethygu; • Mae ymwybyddiaeth genedlaethol o fwlio e.e. ymgyrchoedd wedi lleihau digwyddiadau bwlio; • Mae darpariaeth ysgolion i atal bwlio wedi gwella; • Mae newidiadau polisi mewn ysgolion yn fwy effeithlon; • Mwy o sylw i achosion ac effeithiau bwlio; • Gwelliannau yn narpariaeth ysgolion/colegau. <p>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall.</p>	1			1
	<p>(b) <i>Esboniwch sut byddai bwlio yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc.</i></p> <p>Rhowch hyd at 8 marc am esboniad manwl o sut gallai bwlio effeithio ar blant a phobl ifanc.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p>		8		8

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
	<ul style="list-style-type: none"> • Mae unrhyw ffurf ar fwlio yn aml yn arwain at golli hyder ac ofn lleisio barn • Gall bob ffurf ar fwlio gael effaith niweidiol ar blant a phobl ifanc. • Gall effeithiau bwlio barhau hyd at oedolaeth. • Ar ei waethaf, mae bwlio wedi ysgogi plant a phobl ifanc i hunan-niweidio a hyd yn oed hunanladdiad. • Gall plant sy'n cael eu bwlio: <ul style="list-style-type: none"> ○ Fod ag anawsterau emosiynol/cymdeithasol e.e.: <ul style="list-style-type: none"> - gallant ddatblygu problemau iechyd meddwl fel iselder a gorbryder - profi llai o gyfeillgarwch - bod â hunan-barch isel - datblygu iselder a/neu gorbryder - Encilio ac ynysu'n gymdeithasol, bod ar eu pennau eu hunain - ddim yn cael eu derbyn gan eu cyfoedion - yn wylidwrus ac yn amheus o eraill ○ Efallai y byddent yn cael eu heffeithio'n ddeallusol: <ul style="list-style-type: none"> - mae eu cyflawniadau academaidd yn is oherwydd eu bod yn osgoi neu'n ymddieithrio â'r ysgol, methu ffurfio perthnasoedd iach, llawn ymddiriedaeth gyda ffrindiau neu bartneriaid yn y dyfodol - yn cael trafferth addasu i'r ysgol, a ddim yn gwneud mor dda. - anhawster canolbwyntio ar waith ysgol - gan eu bod yn aros adref o'r ysgol er mwyn osgoi cael eu herlid. ○ Efallai y byddent yn cael eu heffeithio'n gorfforol: <ul style="list-style-type: none"> - cael anafiadau corfforol. - dechrau hunan-niweidio. - Nid ydynt yn teimlo'n hyderus yn eu cryfder corfforol a'u gallu pan maent yn cael eu bwlio. • Mae plant sy'n bwlio yn fwy tebygol o: <ul style="list-style-type: none"> ○ rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol, neu gael eu diarddel o'r ysgol ○ cymryd rhan mewn ymddygiad troseddol 				

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
		<ul style="list-style-type: none"> ○ datblygu iselder neu orbryder ○ cam-drin eu partneriaid rhywiol, eu priod neu eu plant fel oedolion • Mae plant sy'n dyst i fwlio yn fwy tebygol o: <ul style="list-style-type: none"> ○ deimlo'n ddi-rym ○ byw mewn ofn ac euogrwydd <p>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall.</p>				

Band	AA2
4	<p align="center">7-8 marc</p> <p>Esboniad ardderchog sy'n dangos dealltwriaeth a gwybodaeth fanwl am sut byddai bwlio yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Mae'r ymateb yn cynnwys cyfeirio at sawl agwedd ar iechyd a llesiant (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol).</p>
3	<p align="center">5-6 marc</p> <p>Esboniad rhagorol sy'n dangos dealltwriaeth a gwybodaeth am sut byddai bwlio yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Mae'r ymateb yn cynnwys cyfeirio at rai agweddau ar iechyd a llesiant (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol).</p>
2	<p align="center">3-4 marc</p> <p>Esboniad rhagorol sy'n dangos rhywfaint o ddealltwriaeth a gwybodaeth am sut byddai bwlio yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Mae'r ymateb yn cynnwys cyfeirio at agweddau ar iechyd a llesiant (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol).</p>
1	<p align="center">1-2 marc</p> <p>Esboniad sylfaenol sy'n dangos dealltwriaeth a gwybodaeth gyfyngedig am sut byddai bwlio yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc.</p>
	<p align="center">0 marc</p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb</p>

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
8.	<p><i>Un o brif amcanion y dull cyfannol mewn perthynas â bywyd yw bod unigolion yn derbyn cyfrifoldeb am eu lefel llesiant eu hunain.</i></p> <p><i>Esboniwrch y dewisiadau pob dydd (everyday choices) mae unigolyn yn gallu eu gwneud i gefnogi dull cyfannol mewn perthynas â bywyd.</i></p> <p>Rhowch hyd at 6 marc am esboniad cywir a manwl o'r dewisiadau pob dydd mae unigolyn yn gallu eu gwneud i gefnogi dull cyfannol mewn perthynas â bywyd.</p> <p>Gall atebion gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Felly, y penderfyniadau y mae pobl yn eu gwneud am eu bywyd a'u harferion yw'r ffactor mwyaf o bell ffordd o ran penderfynu ar gyflwr eu llesiant. • Yn hytrach na chanolbwyntio ar afiechyd neu rannau penodol o'r corff, mae'r dull hwn mewn perthynas ag iechyd yn ystyried y person cyfan a sut mae'n rhyngweithio â'i amgylchedd. Mae'n ystyried y cysylltiad rhwng y meddwl, y corff a'r enaid. • Yn y dull hwn mae unigolion yn derbyn cyfrifoldeb am lefel eu llesiant eu hunain, ac yn defnyddio dewisiadau pob dydd i gymryd rheolaeth dros eu hiechyd eu hunain. Grymuso cleifion i gymryd rheolaeth dros eu bywydau. • Y dewisiadau mwyaf amlwg y mae pobl yn eu gwneud bob dydd yw'r hyn maen nhw'n ei dreulio, yn gorfforol ac yn feddyliol. • Gallai hyn gynnwys bwyta ac yfed yn synhwyrol, cael deiet cytbwys, peidio ag yfed gormod o alcohol. • Yn yr un modd, ar lefel nad yw'n gorfforol, mae agweddau meddyliol unigolyn yn effeithio ar eu llesiant. • Cymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd. • Sicrhau eu bod yn mynychu apwyntiadau meddygol, yn cael imiwneiddiadau os oes angen. • Mae dull iechyd cyfannol yn darparu mwy nag atebion byr gan ei fod yn fwy tymor hir. <p>Rhowch farciau am unrhyw ateb rhesymol arall.</p>		6		6

Band	AA2
-------------	------------

3	5-6 marc Esboniad da yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r dewisiadau pob dydd mae unigolyn yn gallu eu gwneud i gefnogi dull cyfannol mewn perthynas â bywyd.
2	3-4 marc Esboniad da yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r dewisiadau pob dydd mae unigolyn yn gallu eu gwneud i gefnogi dull cyfannol mewn perthynas â bywyd.
1	1-2 marc Esboniad sylfaenol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig o, o leiaf un dewis pob dydd mae unigolyn yn gallu ei wneud i gefnogi dull cyfannol mewn perthynas â bywyd.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
9.	<p><i>Mae gweithio mewn partneriaeth yn rhan hanfodol o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Aseswch pa mor bwysig yw prif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.</i></p> <p>Rhowch hyd at 10 marc am asesiad manwl o sut mae'r prif egwyddorion yn bwysig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.</p> <p>Gallai atebion gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lleihau profion diangen i gleifion a gwella diogelwch trwy weithio'n well rhwng gwasanaethau. • Gellir cyflwyno partneriaethau newydd sy'n rhoi mynediad gwell a chyflymach i staff iechyd a gofal at wybodaeth hanfodol am y person yn eu gofal, fel y gallant benderfynu ar y camau cywir cyn gynted â phosibl, p'un a yw hynny'n brofion brys neu'n atgyfeiriad at arbenigwr. • Gallu cyrchu gwybodaeth hanfodol am gleifion yn gyflym os yw'n cael ei chadw mewn rhan arall o'r gwasanaeth iechyd. • Gall rhannu gwybodaeth ar gyfer gofal unigol pobl achub bywydau drwy roi'r manylion sydd eu hangen ar staff yn gyflym, o hanesion cleifion i ganlyniadau profion blaenorol a chynlluniau gofal. • Gall cleifion adael yr ysbyty yn gyflymach gan fod nyrsys cymuned yn gwybod pryd mae eu cleifion wedi cael eu derbyn i'r ysbyty fel y gallant ddechrau sgysiau ynghynt am yr hyn y mae angen iddo ddigwydd fel y gall cleifion fod yn barod i fynd adref. • Trwy rannu gwybodaeth ar draws poblogaeth fwy, gall gwasanaethau sicrhau, wrth i bobl symud ar draws gwahanol rannau o'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol, nad oes rhaid iddynt ailadrodd eu hunain a darparu'r un wybodaeth dro ar ôl tro. • Bydd gweithio mewn partneriaeth yn gwella eu dealltwriaeth o'r galw. <p>Derbyniwch unrhyw ateb rhesymol arall.</p>		5	5	10

--	--	--	--	--	--	--

Band	AA2	AA3
3	<p>5 marc</p> <p>Ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p>	<p>5 marc</p> <p>Ymateb rhagorol sy'n asesu pwysigrwydd prif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Mae'r ateb wedi'i fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.</p>
2	<p>3-4 marc</p> <p>Ymateb da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p>	<p>3-4 marc</p> <p>Ymateb da sy'n asesu pwysigrwydd prif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Mae'r ateb wedi'i fynegi'n ddigonol ac mae'n defnyddio terminoleg yn briodol. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir.</p>
1	<p>1-2 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol sy'n dangos ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p>	<p>1-2 marc</p> <p>Ymateb sylfaenol gyda pheth ymgais i asesu pwysigrwydd prif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Mae'r ateb yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu.</p>
	<p>0 marc</p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb</p>	<p>0 marc</p> <p>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb</p>

Cwestiwn			Dyranïad marciau							
			Adran				Cyfanswm marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
			2.3.1	2.3.2	2.3.3	2.3.4				
1.						3(b)	3	3		
2.						4(b)	4	4		
3.		(iii)	1(c)				3	1		
		(ii)	1(c)					1		
		(iii)	1(c)					1		
4.	(a)			5(a)			19		5	
	(b)			6(a)						6
	(c)	(i)		1(a)				1		
		(ii)		1(a)				1		
	(ch)			1(a)				1		
				1(a)				1		
	(d)			4(a)				4		
5.	(a)	(i)	2(a)				18	2		
		(ii)	2(a)					2		
		(iii)	2(a)					2		
	(b)		6(a)						6	
	(c)		6(b)							6
6.	(a)		2(ch)				5	2		
	(b)				3(a)					3
7.	(a)	(i)			1(a)		12	1		
		(ii)			1(a)			1		
		(iii)			2(a)			2		
	(b)				8(a)				8	
8.	(a)					6(a)	6		6	
9.						10(b)	10		5	5
Cyfanswm marciau			24	19	15	23	80	30	30	20